# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 10 Chwefror 2026

Amser: 09.00 - 09.18

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Steffan Lewis (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Julian Luke, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Marc Wyn Jones, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Alun Davidson, Pennaeth Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol<br>Lisa Griffiths, Clerc Gweithdrefnau |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 8.20pm.

Mae Cyfnod 3 Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) wedi'i amserlennu ar gyfer tair awr. Mae 54 o welliannau mewn 11 o grwpiau. Bydd egwyl o 10 munud cyn dechrau Cyfnod 3.

Dydd Mercher

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y newid a ganlyn:

- Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd (~~30~~ 10 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.25pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 3 Mawrth 2026**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar yr eitemau canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (5 munud):
    - Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaeth Ddarfodol) 2026
    - Rheoliadau Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 (Gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr a Chwilio Esempt) (Diwygio) 2026
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar yr eitemau canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (10 munud):
    - Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2026
    - Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Digolledu am Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Cymru) 2026
- Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2026 (15 munud)

Cododd Heledd Fychan y mater fod Aelodau ei grŵp wedi gofyn ai 24 Chwefror yw'r dyddiad a ffefrir o hyd ar gyfer y ddadl ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), yng ngoleuni'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol pellach i'w osod gan y Llywodraeth. Cadarnhaodd y Trefnydd fod 24 Chwefror yn dal i gael ei ystyried fel y dyddiad mwyaf priodol.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 25 Chwefror 2026 –**

- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Categorïau o Aelodau (5 munud)
- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Trothwyon Rheolau Sefydlog (5 munud)
- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Grwpiau Gwleidyddol a Grwpiadau (5 munud)
- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Dirprwy Lywydd ychwanegol (5 munud)
- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Rhannu Swydd Cadeirydd Pwyllgor (5 munud)
- Cynnig i amrywio'r drefn o ystyried gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 11 Mawrth 2026 –**

- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Cywain y cynhaeaf: Cefnogi diwydiant prosesu bwyd Cymru (30 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Cronfa Twf Lleol (30 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Bwrdd Adolygiad Seneddol sy’n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd (60 munud)
- Dadl: Cyfnod 4 y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: Russell George AS (Sir Drefaldwyn) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Hyfforddiant Meddygol (Blaenoriaethu)

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a'r ffaith nad yw'r Pwyllgor wedi adrodd ar y Memorandwm oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael.

### 4.2 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad gan y Trefnydd a chytunodd i:

- gyfeirio’r Memorandwm Atodol (Rhif 2) ar y Bil Rheilffyrdd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 20 Mawrth 2026;
- cyfeirio'r Memorandwm Atodol (Rhif 3) ar y Bil Troseddau a Phlismona o flaen llaw at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 24 Chwefror 2026;
- cyfeirio'r Memorandwm Atodol (Rhif 4) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) o flaen llaw at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 24 Chwefror 2026, a
- chyfeirio'r Memorandwm Atodol (Rhif 2) ar y Bil Cynlluniau Pensiwn o flaen llaw at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 24 Chwefror 2026;

## 5 Trefniadau Cyflwyno

### 5.1 Cyflwyno ar ôl yr etholiad: Trefniadau cynnar

Trafododd y Pwyllgor y papur a:

- chytunodd y bydd y Swyddfa Gyflwyno yn agor ar ôl Cyfarfod Llawn cyntaf y Seithfed Senedd ar gyfer derbyn dogfennau a osodwyd, cwestiynau ysgrifenedig, busnes brys, cynigion, gwelliannau, datganiadau barn, a gosod dogfennau;
- nododd y caiff Cwestiynau Ysgrifenedig a gyflwynir o hynny ymlaen eu cyhoeddi yn y ffordd arferol, a'r dyddiad olaf ar gyfer ateb cwestiynau ysgrifenedig fydd pum niwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu cyflwyno; a
- nododd y caiff Cwestiynau Ysgrifenedig a gyflwynir i Lywodraeth Cymru eu cyflwyno i'w hateb gan y Prif Weinidog, a fydd yn penderfynu pwy ddylai eu hateb, hyd nes y caiff Gweinidogion eraill eu penodi.

## 6 Pwyllgorau

### 6.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ynghylch slot cyfarfod amgen

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes gais gan y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog iddo gyfarfod ddydd Gwener 13 Mawrth 2026 a chytunodd i'r cais.

## 7 Gwaith Gweithdrefnol

### 7.1 Ystyried newidiadau i Reol Sefydlog 23

Dychwelodd y Pwyllgor Busnes at ystyried gwelliannau i'r Rheolau Sefydlog a gynigiwyd gan y Pwyllgor Deisebau a chytunodd i gynnig rhai o'r newidiadau i'r Senedd.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes na fyddai'n bwrw ymlaen â chynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 23.1, a fyddai wedi ei gwneud yn ofynnol i ddeisebau gael eu cyfeirio at un pwyllgor, ar y sail nad yw am gyfyngu ar hyblygrwydd y Pwyllgor Busnes nesaf pan fydd yn sefydlu pwyllgorau yn y Seithfed Senedd.

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai adroddiad drafft ar newid Rheolau Sefydlog yn cael ei lunio i'w gytuno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 7.2 Llythyr gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn perthynas â datganiadau o fuddiant

Nododd y Pwyllgor Busnes yr ymateb gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn cynnwys canllawiau arfaethedig ynghylch y gofyniad i Aelodau sy'n cyflwyno busnes ar ran eraill ddatgan buddiannau ar adeg ei gyflwyno. Dywedodd y Pwyllgor Busnes ei fod yn fodlon ar y cynnig.

## 7.3 Datganiadau o fuddiant: Adroddiad ar Newid Rheolau Sefydlog

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr adroddiad drafft.

## 7.4 Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd: Adroddiad ar Newid Rheolau Sefydlog

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr adroddiad drafft.